

2018 Rhif 202 (Cy. 47)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A483
(Cyffordd 3 (Cylchfan Croes-foel) i
Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Ffordd
Rhuthun), Bwrdeistref Sirol
Wrecsam) (Gwaharddiadau Traffig
Dros Dro) 2018

Made 9 Chwefror 2018

Coming into Force 17 Chwefror 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 3 (Cylchfan Croes-foel) i Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Ffordd Rhuthun), Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 17 Chwefror 2018.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 17 Chwefror 2018 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw dau ddarn o gefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion fel a ganlyn:

- i. Y darn o’r brif gerbyttffordd tua’r gogledd sy’n ymestyn o ddechrau’r ffordd ymadael tua’r gogledd wrth Gyffordd 3 (Cyfnewidfa Croes-foel) hyd at ddiwedd y ffordd ymuno tua’r gogledd wrth Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Ffordd Rhuthun);
- ii. Y darn o’r brif gerbyttffordd tua’r de sy’n ymestyn o ddechrau’r ffordd ymadael tua’r de wrth Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Ffordd Rhuthun) hyd at ddiwedd y ffordd ymuno tua’r de wrth Gyffordd 3 (Cyfnewidfa Croes-foel).

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r gefnffordd.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal na pheri i unrhyw feic o’r fath gael ei reidio ar y darnau o’r gefnffordd.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o’r gefnffordd.

Cymhwys

6. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos. Duration of this Order

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

9 Chwefror 2018

Nina Ley

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru